**Ymateb Estyn i'r ymgynghoriad**

*Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.*

*O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.*

*Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr, a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barnau'r Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.*

***Crynodeb/ Casgliad***

*Mae'r cynigiwr wedi nodi'n briodol fanteision ac anfanteision posibl y cynnig i wella darpariaeth arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghaerdydd (2018-2019). Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o wella'r ddarpariaeth a'r adnoddau presennol sydd ar gael i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghaerdydd.*

***Disgrifiad a manteision***

*Nod y cynlluniau arfaethedig yw ymateb i nifer gynyddol y plant a'r bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol er mwyn cyflawni eu potensial addysgol, trwy:*

- *Gynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol sydd ar gael yng Nghaerdydd*
- *Sefydlu dwy ganolfan adnoddau arbenigol newydd yn ysgolion Caerdydd, ac un dosbarth ymyrraeth gynnar newydd ar gyfer disgyblion ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu*
- *Cau un ganolfan adnoddau arbenigol ar gyfer disgyblion y dynodwyd bod ganddynt nam penodol o ran iaith*
- *Newid y meysydd arbenigedd a gynigir yn rhai o ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol Caerdydd*

*Mae'r cynnig yn ymwneud â chynlluniau yn yr wyth ysgol ganlynol:*

- *Ysgol Gynradd Allensbank*
- *Ysgol Greenhill*
- *Ysgol Arbennig The Hollies*
- *Ysgol Arbennig Meadowbank*
- *Ysgol y Santes Fair yr Wyryf – Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru*
- *Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn*
- *Ysgol Glantaf*
- *Ysgol Gymraeg Pwll Coch*

*Yn gyntaf, bydd Estyn yn disgrifio'r cynnig a'i fanteision posibl yn gyffredinol, ac wedyn, bydd yn disgrifio'r cynigion a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â phob ysgol unigol.*

*Mae'r cynigiwr wedi rhoi rhesymeg glir ar gyfer y cynnig yn gyffredinol. Mae'r cynigiwr yn nodi galw cynyddol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar gyfer darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol ledled Caerdydd. Er enghraifft, dangosant fod y galw am leoedd mewn dosbarthiadau mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol wedi codi 103 o leoedd dros y 5 mlynedd ddiwethaf, ac yn datgan nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddigon i fodloni'r angen ar hyn o bryd, nac yn y dyfodol. Mae'r cynigiwr yn dadlau'n synhwyrol y dylai'r cynnig helpu mwy o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol i gwblhau eu haddysg o fewn yr awdurdod lleol, a dylai leihau'r angen i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn ysgolion arbennig annibynnol yng Nghaerdydd a thu hwnt.*

*Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth addas i'r effaith ar ysgolion eraill yn yr ardal a allai gael eu heffeithio gan y cynigion. Mae wedi amlinellu'r modd y gallai pob ysgol yng Nghaerdydd elwa ar y cynnig trwy gynyddu lefel arbenigedd staff wrth ddarparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ledled y ddinas.*

*Mae'r cynigiwr wedi ystyried y priffyrdd a'r goblygiadau cludiant sy'n gysylltiedig â phob un o'r wyth cynllun, ac effaith y cynnig ar drefniadau teithio dysgwyr. Mae'r cynigiwr yn bwriadu parhau i gefnogi teithio rhwng y cartref a'r ysgol yn unol â pholisi'r cyngor ar gludiant o'r cartref i'r ysgol. Mae'r cynigiwr wedi cwblhau asesiad cychwynnol o'r effaith ar gydraddoldeb a ddaeth i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar grŵp penodol mewn cymdeithas. Mae'r cynigiwr hefyd yn ystyried effaith y cynigion ar yr iaith Gymraeg ac yn dod i'r casgliad rhesymol y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg neu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y ddinas.*

*Mae'r cynigiwr yn datgan nad oes cyllid wedi cael ei sicrhau ar gyfer pob cynllun, a dywed pe na bai cyllid ar gael, yna byddai angen ail-flaenoriaethu'r wyth cynllun yn y cynnig. Nid yw'n glir sut byddai'r ail-flaenoriaethu hyn yn digwydd na'r meini prawf y byddai'r cynigiwr yn eu defnyddio.*

*Mewn tua hanner o'r wyth cynllun, mae'r cynigiwr yn datgan mai anfanteision posibl y cynigion yw'r goblygiadau i wasanaethau iechyd a ddarperir mewn partneriaeth â'r ysgolion. Nid yw'r cynigiwr yn datgan yn glir beth yw'r goblygiadau hyn, er eu bod yn ymrwymo i weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, i barhau i sicrhau bod anghenion asesedig plant yn cael eu bodloni, a datblygu dulliau cydweithredol ymhellach i hyrwyddo lles a deilliannau cadarnhaol ar gyfer disgyblion.*

***Cynlluniau unigol yn y cynnig***

***Ysgol Gynradd Allensbank***

*Y cynnig yw cau'r ganolfan adnoddau arbenigol presennol sydd â lle i 16-20 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn 2020, ac agor dosbarth lleferydd, iaith a chyfathrebu ymyrraeth gynnar ar gyfer 8 o ddisgyblion rhwng 4 a 7 oed ym mis Medi 2019.*

*Mae'r cynnig yn cyfeirio'n briodol at y cyngor a ddarparwyd gan y Grŵp Cyfeirio Lleferydd ac Iaith. Mae'r cynigiwr yn nodi bod lleoedd dros ben yn y ganolfan adnoddau arbenigol bresennol a bod rhagamcaniadau'n dangos na fydd dros hanner yr holl leoedd a gynigir ar hyn o bryd wedi'u llenwi erbyn 2022. Mae'r cynigiwr yn amlinellu llwyddiant rhaglenni ymyrraeth iaith gynnar Caerdydd ac yn awgrymu mai dyma un o'r rhesymau dros y lleoedd dros ben yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r cynigiwr yn cadarnhau y bydd darpariaeth ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2 sydd ar ddatganiad sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael ei chynnig yn Ysgol Arbennig Meadowbank neu drwy ddatganiad prif ffrwd.*

*Mae'r cynigiwr yn nodi'n briodol y bydd disgyblion yn mynychu'r dosbarth ymyrraeth gynnar am gyfnod rhwng blwyddyn a thair blynedd, yn dibynnu ar gynnydd unigol pob disgybl. Bydd gan ddisgyblion gofrestriad deuol yn eu hysgol leol ac yn Ysgol Gynradd Allensbank, a byddant yn cynnal cysylltiadau â'u hysgol gynradd leol trwy fynychu'r ysgol honno am o leiaf ddiwrnod yr wythnos. Mae'r cynigiwr yn awgrymu'n briodol y byddant yn parhau i gysylltu â'r Gwasanaeth Lleferydd ac Iaith ar y Cyd i ragweld angen yn y dyfodol.*

***Ysgol Greenhill***

*Y cynnig yw ymestyn ystod oedran yr ysgol o 11 i 16 oed i 11 i 19 oed, a chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael o 56 i 64.*

*Mae'r cynnig yn cyfeirio'n briodol at ddata sy'n dangos bod tua 50% o ddisgyblion Greenhill yn mynd yn bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar ôl Blwyddyn 11 dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae'r cynigiwr yn nodi bod pobl ifanc ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn ei chael yn eithriadol o anodd trosglwyddo o'r ysgol, ac y bydd darparu cymorth ychwanegol â throsglwyddo ym Mlwyddyn 12 yn eu helpu i fynd ymlaen yn haws i addysg bellach neu waith. Mae'r cynigiwr yn nodi'n briodol bod gan y staff yn Greenhill arbenigedd presennol i gynorthwyo'r bobl ifanc hyn. Mae'r cynigiwr wedi ystyried aros i gyflwyno'r cynnig nes bydd cyllid Band B wedi'i sicrhau i wella cyflwr yr ysgol. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad i weithredu nawr yn bendant o ganlyniad i lefel bresennol yr angen a nodwyd.*

***Ysgol Arbennig The Hollies***

*Y cynnig yw ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4 i 11 oed i 4 i 14 oed, a chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael o 90 i 138.*

*Mae'r cynigiwr wedi nodi'r angen i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer cyflwr y sbectrwm awtistig i fodloni'r galw arfaethedig am leoedd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 yn y dyfodol. Mae'r cynigiwr yn amlinellu tri opsiwn ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth, ac mae pob un o'r rhain yn ymwneud â safle'r ysgol bresennol a defnyddio'r ddarpariaeth gynradd wag yn Ysgol Glan Morfa. Mae'r cynigiwr yn archwilio'n briodol fanteision ac anfanteision pob un o'r tri opsiwn ac yn darparu rhesymu cadarn ar gyfer yr opsiwn y maent yn eu ffafrio. Mae'r cynigiwr yn nodi bod yr arweinwyr a'r staff presennol yn yr ysgol yn meddu ar yr arbenigedd i ymdopi'n dda â'r ystod oedran estynedig ac y dylai hyn eu galluogi i adeiladu ar yr arfer dda yn yr ysgol.*

*Er bod y cynnig yn amlinellu ystod y lleoliadau y gall disgyblion drosglwyddo iddynt yng nghyfnod allweddol 4, mae diffyg eglurder cyffredinol ynglŷn â sut bydd y galw am gyfnod allweddol 4 yn y dyfodol yn cael ei fodloni. Yn ychwanegol, nid yw'r cynigion yn rhoi sicrwydd digonol y gall disgyblion â chyflyrau'r sbectrwm awtistig barhau i elwa ar ddarpariaeth arbenigol briodol yng nghyfnod allweddol 4.*

***Ysgol Arbennig Meadowbank***

*Y cynnig yw ymestyn dynodiad yr ysgol i gynnwys anableddau dysgu cymhleth, yn ogystal ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Dynodwyd yr ysgol yn wreiddiol ar gyfer disgyblion â nam penodol o ran iaith, ond ni ddefnyddir y diagnosis hwn mwyach ac mae wedi cael ei ddisodli gan y term mwy cyffredin anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.*

*Mae'r cynigiwr yn darparu rhesymeg glir ar gyfer y cynnig. Mae lle i 40 o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Meadowbank, ond mae'r niferoedd ar y gofrestr wedi gostwng i 15. Mae hyn o ganlyniad i ostyngiad yn nifer y ceisiadau am leoedd i ddisgyblion sydd â nam penodol o ran iaith. I sicrhau hyfywedd ariannol yr ysgol yn y dyfodol, mae'n ymddangos bod awgrym y cynigiwr i ymestyn y ddarpariaeth i gynnwys lleoedd ar gyfer disgyblion ag anableddau dysgu cymhleth, yn ogystal â pharhau i ddarparu lleoedd ar gyfer disgyblion ag anghenion cyfathrebu yn synhwyrol. Mae'r cynigiwr yn nodi'n briodol yr angen arfaethedig am leoedd ychwanegol ar gyfer disgyblion ag anableddau dysgu cymhleth. Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn ofalus y cyngor gan y Grŵp Cyfeirio Iaith Penodol ac mae'n creu dadl resymol ynglŷn â pham y dylid lleoli'r dosbarth ymyrraeth gynnar ar gyfer disgyblion ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn ysgol gynradd prif ffrwd, yn hytrach na mewn ysgol arbennig.*

***Ysgol y Santes Fair yr Wyryf – Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru***

*Y cynnig yw agor canolfan adnoddau arbenigol â 20 o leoedd ar gyfer disgyblion ag anableddau dysgu cymhleth. Gofynnodd corff llywodraethol yr ysgol am y ddarpariaeth hon fel rhan o gynnig adeilad ysgol newydd Band B 2015. Cytunwyd ar gyllid Band B yn 2015.*

*Mae'r cynigiwr yn nodi'n briodol y galw cynyddol am leoedd ar gyfer disgyblion ag anableddau dysgu cymhleth yn ardal canol de Dinas Caerdydd. Mae'r cynigiwr yn nodi y byddai'r ddarpariaeth newydd hon yn lleihau'r pwysau ar y pedair canolfan adnoddau arbenigol gynradd arall ar gyfer anableddau dysgu cymhleth, a byddai hefyd yn lleihau'r amser teithio a'r pellterau ar gyfer disgyblion ag anableddau dysgu cymhleth yn ardal canol de y ddinas.*

***Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn***

*Mae Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn ynghyd ag Ysgol Arbennig Glan yr Afon ac Ysgol Arbennig Woodlands yn ffurfio Ffederasiwn Campws Dysgu'r Gorllewin. Mae Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn wedi'i dynodi i ddarparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 19 oed ag anableddau dysgu cymhleth neu gyflyrau'r sbectrwm awtistig. Y cynnig yw cynyddu capasiti'r ysgol i 198 o leoedd.*

*Mae'r cynigiwr yn darparu rhesymeg glir ar gyfer y cynnig ac mae'n darparu rhagamcaniadau sy'n dangos cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y galw am leoedd hyd at 2022. Mae'r cynigiwr yn amlinellu opsiynau a ystyriwyd i gynyddu capasiti'r*

*ysgol ac mae'n llunio dadleuon cadarn ar gyfer addasu adeilad Canolfan Ieuenctid Trelái er mwyn darparu tair ystafell ddosbarth newydd yn y brif ysgol trwy goridor caeedig. Mae'r cynigiwr yn cyfeirio'n addas at sut byddai'r prosiect hwn yn gweithio ochr yn ochr â'r prosiect amlasiantaethol a sefydlwyd o dan y Rhaglen Dyfodol Anabledd a sut byddai'n cyfrannu ymhellach at ymagwedd amlasiantaethol at gynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.*

***Ysgol Glantaf***

*Y cynnig yw cynyddu nifer y lleoedd yn y ganolfan adnoddau arbenigol ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg sydd ag anableddau dysgu cymhleth neu gyflyrau'r sbectrwm awtistig o 20 lle i 30 lle.*

*Mae'r cynigiwr yn darparu rhesymeg glir ar gyfer y cynnig, ac mae'n darparu rhagamcaniadau sy'n dangos galw cynyddol am y ddarpariaeth yn y dyfodol. Mae'r cynigiwr yn egluro'n briodol sut byddai'r safle presennol yn cael ei ymestyn a'i wella i hwyluso nifer gynyddol y lleoedd a gynigir. Mae'r cynigiwr yn dangos y byddai'r cynnydd mewn darpariaeth ddysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg arbenigol yn darparu manteision ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg ledled y ddinas.*

***Ysgol Gymraeg Pwll Coch***

*Y cynnig yw agor canolfan adnoddau newydd arbenigol cyfrwng Cymraeg â 10 o leoedd ar gyfer disgyblion ag anableddau dysgu cymhleth neu gyflyrau'r sbectrwm awtistig. Mae'r cynnig yn dangos y byddai cyfle i gynyddu nifer y lleoedd a gynigir o 10 i 20 pe bai'r angen yn codi.*

*Mae'r cynigiwr yn darparu rhesymeg glir ar gyfer y cynnig, gan ddweud bod yr awdurdod lleol wedi nodi rhwng 5 a 10 o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a allai elwa ar le mewn canolfan adnoddau arbenigol ar hyn o bryd. Mae'r cynigiwr yn rhagweld y bydd y nifer hon yn cynyddu dros y 3 i 5 mlynedd nesaf. Mae'r cynigiwr wedi ystyried opsiynau eraill ac mae'n cynnig dadleuon cadarn ynglŷn â pham y dylid lleoli'r ddarpariaeth newydd yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch. Er enghraifft, mae'r ysgol yn yr un clwstwr ag Ysgol Glantaf sy'n lletya'r ganolfan adnoddau arbenigol uwchradd ar gyfer disgyblion ag anableddau dysgu cymhleth neu gyflyrau'r sbectrwm awtistig, a gallai hyn helpu disgyblion y ganolfan adnoddau arbenigol i drosglwyddo'n haws i'r ysgol uwchradd tra'n cynnal eu perthynas â chyfeillion.*

***Agweddau addysgol ar y cynnig***

*Nid yw'r cynigiwr wedi darparu data am berfformiad disgyblion ar gyfer unrhyw un o'r ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig.*

*Ceir tabl isod sy'n dangos canlyniadau'r arolygiadau diweddaraf, lefel y gweithgarwch dilynol, os yw'n berthnasol, a chategoreiddiad Llywodraeth Cymru 2017 ar gyfer yr wyth ysgol sy'n gysylltiedig â'r cynnig.*

| *Enw'r ysgol* | *Blwyddyn yr arolygiad* | *Perfformiad presennol* | *Rhagolygon gwella* | *Lefel y gweithgarwch dilynol* | *Dyddiad y tynnwyd o'r categori gweithgarwch dilynol* | *Categoreiddiad Llywodraeth Cymru 2017* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Ysgol Gynradd Allensbank* | *2013* | *Digonol* | *Digonol* | *Gwelliant Sylweddol* | *2015* | *Ambr* |
| *Ysgol Greenhill* | *2013* | *Da* | *Da* | *dd/b* | *dd/b* | *Gwyrdd* |
| *Ysgol Arbennig The Hollies* | *2013* | *Da* | *Da* | *dd/b* | *dd/b* | *Melyn* |
| *Ysgol Arbennig Meadowbank* | *2013* | *Da* | *Digonol* | *Monitro gan Estyn* | *2015* | *Gwyrdd* |
| *Ysgol y Santes Fair yr Wyryf – Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru* | *2012* | *Rhagorol* | *Rhagorol* | *dd/b* | *dd/b* | *Ambr* |
| *Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn* | *2012* | *Rhagorol* | *Rhagorol* | *dd/b* | *dd/b* | *Gwyrdd* |
| *Ysgol Glantaf* | *2017* | *Da* | *Da* | *dd/b* | *dd/b* | *Ambr* |
| *Ysgol Gymraeg Pwll Coch* | *2011* | *Da* | *Da* | *dd/b* | *dd/b* | *Melyn* |

*Mae Llywodraeth Cymru yn dosbarthu ysgolion yn unol â lefel y cymorth y barnwyd bod ei hangen ar yr ysgol.*

*Mae ysgol werdd yn ysgol hynod effeithiol, sy'n cael ei rhedeg yn dda, mae ganddi arweinyddiaeth gref ac mae'n glir ynglŷn â'i blaenoriaethau ar gyfer gwella.*

*Mae ysgol felen yn ysgol effeithiol, sydd eisoes yn gwneud yn dda ac yn gwybod pa feysydd y mae angen eu gwella.*

*Mae ysgol ambr yn ysgol sydd angen ei gwella, sydd angen cymorth i nodi'r camau i wella neu wneud i newidiadau ddigwydd yn gyflymach.*

*Mae'r cynigiwr wedi amlinellu'n briodol sut bydd yn gweithio gydag arweinwyr ysgol a chyrff llywodraethol, a'u cynorthwyo, wrth iddynt roi'r newidiadau arfaethedig ar waith.*

*Mae'r cynigiwr wedi amlinellu'n briodol sut bydd y cynnig yn debygol o wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a sut bydd y cynnig yn debygol o wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu ac yn hwyluso rhannu adnoddau ac arfer yn well ledled Caerdydd.*

**Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

Mae'r Cyngor yn cydnabod y safbwyntiau a fynegwyd